**Gwenda Thomas AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LF GT 422 13

Vaughan Gething AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal
Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

15 Mai 2013

Annwyl Vaughan,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Mai ynghylch "Pan Fydda i'n Barod", a fydd yn gweithio ochr yn ochr â'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Fel y gwŷdd yr Aelodau, ar 19 Hydref 2011 dewiswyd Ken Skates AC yn y bleidlais i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod ar Barhad o Ofal i Fywyd fel Oedolyn. Yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 11 Ionawr 2012 ar gynnig Mr Skates yn gofyn am ganiatâd y Cynulliad i gyflwyno Bil, eglurais fy mod yn cefnogi y bwriad sy'n sail i gynigion y Bil, ond fy mod o'r farn nad oes angen Bil. Yn hytrach, cytunais i weithio gydag ef i ddatblygu cynllun i gefnogi pobl ifanc yn y broses o adael gofal.

Mae'r cynllun "Pan Fydda i'n Barod" yn un o amryw opsiynau a fydd ar gael i bobl ifanc sy'n tyfu'n oedolion pan fyddant yn gadael gofal yn 18 oed. Y bwriad yw i hyn fod yn ddewis gwahanol i 'lety â chymorth' a bydd yn galluogi pobl ifanc i aros gyda'u cyn ofalwyr maeth mewn lleoliad teuluol gyda phobl sy'n gyfarwydd iddyn nhw ac sy'n gallu cynnig cymorth parhaus wrth iddyn nhw dyfu'n oedolion. Fel y gwyddoch, rwyf wedi cytuno i arloesi hyn mewn tair ardal awdurdod lleol yn ystod 2013/14 (gan ddefnyddio pwerau yn Rhan 3 Deddf Plant 1989) fel bod modd i brofiadau'r ardaloedd hyn lywio'r gwaith o ddatblygu'r canllawiau i sicrhau eu bod yn bodloni anghenion pobl ifanc a'u gofalwyr.

Fel y gwyddoch, rydyn yn ymgorffori'r ddarpariaeth gyfredol sydd yn Rhan 3 Deddf Plant 1989 yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2013. Bydd Rhan 6 y Bil, yn arbennig adran 93, yn rhoi'r awdurdod deddfwriaethol angenrheidiol i weithredu'r cynllun "Pan Fydda i'n Barod".

Yn gywir

Gwenda.

**Gwenda Thomas AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Gwenda.Thomas@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*